

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Elwy Lloyd Evans (Tanyfron) ddechrau mis Awst. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Doreen, ei briod; ac â'r plant – Medwyn, Melfyn, Sioned, Dylan, Osian a Rhodri a'u teuluoedd; ac â'i frawd, Emllyn Evans a gweddill y teulu yn eu profedigaet. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl. Roedd Elwy wedi cyflawni 50 o flynyddoedd fel blaenor yng Nghapel Tanyfron, a bu'n ffyddlon ac yn weithgar yno gydol yr amser. Diolchwn amdano. Cofiw'n am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf hefyd, a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd y mae Hywel Wyn Davies (Cefn Berain), ac mae Elsie May Edwards (Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) yn cael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Gwenfyl Williams (Tanyfron) yn Ysbyty Rhuthun. Anfonwn ein cofion at y pedwar, fel ag y gwnawn at y rhai fu yn yr ysbyty yn ystod yr haf – Hafwen Roberts (Henllan) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Abergele; Gwyneth Rawson (Llanfair); Elizabeth Jones (Llansannan); a Robin Davies (Saron). Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda hefyd ac eraill wedi cael anffawd yn ddiweddar. Gweddïwn y bydd pob un ohonynt yn parhau i wella ac i gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen, Mrs Edith Maloney, a Miss W J Roberts, (Yr Hen Ddeondy, Llanellwly); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Hyderwn eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Llongyfarchiadau calonnog:
 - ✧ i Dona Mair Jones (Llansannan) ar ei dyweddiad â Kevin Williams.
 - ✧ i Sion a Kaye Evans (Llansannan) ar enedigaeth merch, Alaw Sion, chwaer fach i Lliwen, Anest, Caron a Llyr.
 - ✧ i Elliw ac Eryl Williams (Llansannan) ar enedigaeth efeilliaid, Rhys Glyn a Llio Glyn, brawd a chwaer fach i Ifan Glyn.
- Llongyfarchiadau arbennig hefyd i Gwyneth Wynne, Dyfyr Tudor a Hafwen Roberts (Henllan) fydd yn derbyn y Fedal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seion, Llanrwst dydd Iau nesaf. Diolchwn am y tair ohonynt, ac am bawb arall sy'n cynnal a diogelu gwaith yr Ysgol Sul yn ein heglwysi.
(Os ydw i wedi gadael enw rhywun allan, rwy'n ymddiheuro'n fawr. Os felly, hwyrach y byddwch cystal â chysylltu ag un ohonom rhag ofn nad ydi'r wybodaeth wedi ein cyrraedd.)

Darllenid Wythnos Nesaf

Genesis 50:15-21 (BCND tud.49 / BCN tud.44)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Medi 2016

Darllenid y Dydd

Luc 4:14-21

(BCND tud.65 / BCN: tud.60)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw ac i gyfnod newydd yn hanes y Fro. Rwy'n diolch heddiw am y cyfle i ddweud diolch am eich ffyddlondeb a'ch ymroddiad dros gyfnod fy ngweinidogaeth yn eich plith ac am y cyfle i ddymuno'n dda i Rhodri, Mair a Gwion wrth iddynt eich arwain o hyn ymlaen, ac i Sarah wrth iddi gychwyn ar ei hastudiaethau gwaith cymdeithasol. Gwn o brofiad mor werthfawr yw cael cefnogaeth Ann a'm teulu, ac felly fe gadwn Gwenno, Llio ac Arwel hefyd yn ein gweddïau rwy'n siŵr wrth edrych ymlaen i'r dyfodol.

Dwn i ddim ble i ddechrau diolch a dweud y gwir! Fe fu'r blynyddoedd yn llawn o fendithion, a chefais y frain o gael dod i'ch adnabod yn well. Rhai yn fwy na'i gilydd yn naturiol, a buaswn wedi dymuno dod i adnabod llawer mwy arnoch hefyd trwy brofiadau amrywiol bywyd. Mae'r frain honno yn dod i ran Rhodri a Gwion o'r newydd bellach, a bendith aruthrol yw gwybod y bydd Mair hefyd yn parhau yn ei gofal a'i bugeiliaeth ffyddlon.

Rwy'n hyderus iawn y rhowch eich cefnogaeth i'r Tîm Gweinidogaethol ar ei newydd wedd gyda'r un cadernid ag a brofais i, a diolch i chi am hynny. Mae'r Tîm yn cynnwys pob un ohonom, ac fe fydd pawb yn cael ei alw gan yr Arglwydd i waith neilltuol fel rhan o gorff yr Eglwys. Diolch fod pob newid dan reolaeth yr Arglwydd ei hun, gan mai Ef ydi Pen yr Eglwys. Diolch iddo a diolch i Dduw am ei ffyddlondeb rhyfeddol tuag atom.

Os mai diolch yw fy lle – mae heddiw yn gyfle i ddymuno bendith i chi hefyd. Mae'n siŵr mai un o'r bendithion y byddwn yn ei ddymuno i bob un ohonoch ydi'r fendith o allu dirnad galwad Duw ar eich bywyd chi yn bersonol. Rwy'n gwybod fod gan yr Arglwydd ddyfodol cyffrous ar ein cyfer, a rhan mawr o'r cyffro yw derbyn arweiniad Duw ar gyfer ein bywyd, a chael cadarnhad trwy ei Air bywiol a thrwy ei Ysbryd beth y mae'n ei ofyn gennym a beth yw'r gwaith sydd ganddo ar ein cyfer. Ein braint yw cael ein galw i gydweithio yn Ei Deyrnas. Gobeithiaf felly y byddwch yn cael sicrwydd clir gan yr Arglwydd beth yw ei fwriadau ar eich cyfer ac y bydd llawenydd y 'gwybod' hwnnw yn eich llenwi â gostyngeddwrwydd a hyder yn gymysg â'i gilydd.

Diolch o galon i chi am eich cwmni, eich gweddïau, am bob cefnogaeth a phob haelioni. Pob bendith a phob cysur a gorfoledd i chi yn yr Arglwydd Iesu.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 4^{ydd}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.

Iau – 8^{fed}

- Gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seion, Llanrwst am 2.30 i gyflwyno **Medalau Gee** i rai am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul.
- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid fydd yn cael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan am 7.30.

Sul nesaf – 11^{eg}
SUL Y FRO

Dwy Oedfa Arbennig:

- ✧ Cynhelir oedfa yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 10.30 y bore** i dderbyn saith o ieuenctid yr ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol. Bydd hefyd yn gyfle i ddiolch i Sarah Dafydd am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol yn y Fro.
- ✧ Yna, **am 6.00 yr hwyr**, bydd oedfa arbennig i ddiolch am weinidogaeth Aneurin ac i'w ollwng o'i ddyletswyddau fel gweinidog yma ym Mro Aled.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 4^{ydd} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00.

Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan a Nantglyn

Sul yma – 4^{ydd} Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Mr Caerwyn Davies a Mr Stan Lyall (Cyn-lywydd ac Ysgrifennydd yr Henaduriaeth) yn bresennol yn yr oedfa er mwyn uno cynulleidfaoedd Tanyfron a Llansannan. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 4^{ydd} Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yno am 2.00.

Cyhoeddiadau

Henllan a Groes

Sul yma – 4^{ydd} Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00 Bydd Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 4^{ydd} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.

I ddod

- **IS-BWYLLGOR CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Medi 14eg yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl am 7.00, a'r siaradwraig fydd Mrs Cheryl Williams.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Henllan nos Iau, Medi 15fed. Pwyllgor Gwaith am 4.30, Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- **CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU DR RHODRI GLYN YN WEINIDOG AR EGLWYSI BRO ALED** prynhawn dydd Sadwrn, Medi 17eg yn Llansannan am 2.00.
- **DATHLIAD BEIBL BYW** i bobl o bob oed, i blant ac ieuenctid dydd Sadwrn, Medi 24ain yng Ngholeg y Bala a Chapel Tegid. Mae croeso i bawb yn rhad ac am ddim. Bydd diodydd cynnes ond dewch â phhecyn bwyd. I archebu lle neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Choleg y Bala ar (01678) 520565 neu ebostiwrch colegybala@ebcpcw.org.uk
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** nos Fercher, Medi 28ain yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Helen Wyn Jones.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.